Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru

Tachwedd 2014

Yn gymwys i gyrsiau i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 166/2014
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2014
Yn disodli dogfen wybodaeth rhif: 144/2014

Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru

Cynulleidfa Sefydliadau dyfarnu a'r rhai sy'n darparu Bagloriaeth Cymru.

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu'r fanyleb ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015.

Camau i'w cymryd Rhaid i sefydliadau dyfarnu ddefnyddio'r ddogfen hon a llunio manylion y fanyleb ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn unol â'r fframwaith a'r meini prawf a gyflwynir yma.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663869
e-bost: Wbq-cbc@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Cymwysterau Cymru yn www.cymwysteraucymru.org/qualification-type/bagloriaeth-cymru

ISBN digidol 978 1 4734 2595 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23827

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Rhesymeg	2
Strwythur cyffredinol	5
Amcanion, deilliannau dysgu a chynnwys	6
Y Prosiect Unigol	9
Heriau	9
Asesu a’r cynllun asesu	10
Cymedroli	13
Graddau	14
Ardystio a chofnodi	15

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sawl elfen mewn perthynas â'r Fagloriaeth a gaiff ei haddysgu o fis Medi 2015, o ran rhesymeg, strwythur, amcanion a deilliannau dysgu, cynnwys, asesu, graddio, cymedroli a chofnodi.

Mae'n darparu'r fframwaith a'r meini prawf i gorff neu gyrff dyfarnu eu defnyddio i greu manylion y manylebau ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar bob lefel.

Bwriad yr egwyddorion cynllunio yw sicrhau bod Bagloriaeth ddiwygiedig Cymru:

- yn drwyadl ac yn gadarn
- yn cael ei datblygu mewn ymateb i gasgliadau ac argymhellion yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012)
- yn cadw cryfderau Bagloriaeth bresennol Cymru ac yn mynd i'r afael â'i gwendidau
- yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hanfodol a'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith ac sy'n bwysig i gyflogwyr ac addysg uwch (gweler 'Amcanion, deilliannau dysgu a chynnwys' ar dudalen 6).

Mae'n rhaid i fanylebau achrededig fodloni gofynion yr egwyddorion cynllunio.

Rhesymeg

Mae cymwysterau newydd Bagloriaeth Cymru, ar lefelau Sylfaen, Cenedlaethol, Sylfaen ôl-16, Cenedlaethol ôl-16 ac Uwch, yn cael eu cyflwyno i'w defnyddio yng Nghymru mewn ymateb i argymhellion 9 i 13 o'r *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012).

Roedd yr argymhellion, a wnaed ym mis Tachwedd 2012, yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol yn ymwneud â chynllunio'r cymwysterau.

A9 Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno model Bagloriaeth Cymru diwygiedig a mwy trylwyr ym mis Medi 2015... Dylai adeiladu ar gryfderau'r model presennol sy'n cael ei barchu'n gyffredinol ac ar y gwaith y mae darparwyr eisoes wedi'i fuddsoddi. Dylai'r newidiadau fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan yr Adolygiad, yn fwyaf arbennig y dull asesu ar gyfer elfennau sgiliau ac ailadrodd dysgu neu asesu. Dylai'r model ddarparu'r hyblygrwydd ar gyfer datblygiad pellach dros amser. Dylid defnyddio'r model amlinellol enghreifftiol [yn adroddiad terfynol yr Adolygiad]... fel man cychwyn ar gyfer datblygu'r Bagloriaeth Cymru diwygiedig, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer graddio.

A10 Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno graddio Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch [i'w haddysgu] o fis Medi 2013 a dylai ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn graddio ar lefelau eraill wrth ddatblygu'r Bagloriaeth Cymru diwygiedig.

A11 Dylai Llywodraeth Cymru annog pawb i fabwysiadu Bagloriaeth Cymru fel y sail ar gyfer rhaglenni dysgu – ysgolion yn 14 i 16 oed ac ysgolion a cholegau yn 16 i 19 oed (a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith os yw'n briodol). Yn 14 i 16 oed dylai pob dysgwr ddilyn yr un rhaglen ddysgu Bagloriaeth Cymru, ond gallai cyrhaeddiad fod ar Lefel 1 (Cenedlaethol Sylfaen) neu Lefel 2 (Cenedlaethol). Dylai dysgwyr ôl-16 ddilyn naill ai Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol ôl-16 neu Bagloriaeth Cymru Uwch. Ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn llwybr galwedigaethol, dylai cynnwys eu Bagloriaeth Cymru gael ei lywio gan yr ymagwedd Rhaglen Maes Dysgu sy'n cael ei datblygu.

A13 Dylai CBAC, ac yn ddiweddarach Cymwysterau Cymru, ddefnyddio system Rhif Unigryw'r Dysgwr i gadw cofnod canolog o gyrhaeddiad cronnol pob dysgwr o elfennau rhaglenni Bagloriaeth Cymru er mwyn hwyluso continwwm o ddilyniant yn ôl cyflymder y dysgwr ei hun ac osgoi'r angen i ddyblygu asesu.

A17 Dylai darparwyr ymgysylltu'n fwy effeithiol â phartneriaid megis cyflogwyr i gyflenwi cymwysterau o fewn Bagloriaeth Cymru ac elfennau o'r cymhwyster hwnnw, gan gynnwys profiad gwaith, addysg gysylltiedig â gwaith, elfennau seiliedig ar sgiliau neu fenter. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi cydweithio o'r fath.

Cryfderau'r Bagloriaeth Cymru cyfredol a nodwyd gan yr Adolygiad yw:

- cynnwys ystod eang o sgiliau a phrofiadau y mae cyflogwyr, prifysgolion ac eraill wedi dweud wrth yr Adolygiad eu bod am i bobl ifanc feddu arnynt
- y pwyslais ar lythrennedd a rhifedd
- y sgiliau eraill gan gynnwys sgiliau 'cyflogadwyedd' a phrofiadau cyfoethogi sy'n cyfrannu at addysg eang a chytbwys. Mae hyn yn cynnwys addysg gysylltiedig â gwaith, addysg bersonol a chymdeithasol a chyfranogiad cymunedol
- Ymchwiliad Unigol, sy'n annog dysgwyr i astudio'n annibynnol, ac amryw o sgiliau ymchwil, meddwl a chyfathrebu
- hyblygrwydd yr elfen Cymru, Ewrop a'r Byd. Pan gaiff ei chyflwyno'n dda mae i'w weld yn boblogaidd, yn arloesol ac yn gyffrous
- defnyddio cymwysterau annibynnol sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn yr opsiynau
- darparu ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol o fewn un model a chydnabod y llwybrau hyn gyda'r un cymhwyster.

Y pryderon ynghylch y Bagloriaeth Cymru cyfredol a nodwyd gan yr Adolygiad yw:

- mae'r dull asesu portffolio ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach yn cymryd llawer o amser ac yn amhriodol ar gyfer rhai lleoliadau
- mae enghreifftiau o ddyblygu dysgu neu asesu rhwng opsiynau a'r Craidd (er enghraifft, dysgwyr sy'n dilyn cymhwyster TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru mewn TGCh)
- mae ansawdd cyflenwi'r Craidd yn amrywio gormod rhwng darparwyr
- mae'r gofynion cyfredol ar gyfer yr elfen iaith yn caniatáu gormod o amrywiaeth yn yr hyn sy'n cael ei gyflenwi
- nid yw gwahanol lefelau cyflawniad yn cael eu cydnabod yn y dyfarniad a enillir
- mae lefel isel o ddealltwriaeth, yn enwedig ymysg rhieni/gofalwyr, o strwythur, cynnwys neu ddiben Bagloriaeth Cymru.

Gan adeiladu ar gasgliadau'r Adolygiad, ar y gwaith datblygu a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ers Tachwedd 2012, bydd y prif newidiadau o ran strwythur a chynllun Bagloriaeth newydd Cymru yn cynnwys y canlynol.

- Ffocws newydd ar ddatblygu ac asesu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn dysgu a gweithio, gan eu datblygu drwy sesiynau dysgu a gweithgareddau diddorol (Heriau a'r Prosiect Unigol) sy'n briodol ar gyfer y grŵp oedran.
- Pwyslais mwy ar drylwyredd, gan gynnwys graddio cymwysterau ar bob lefel, graddio'r Prosiect Unigol a'r Heriau, gofynion mwy ymestynnol o ran cymwysterau ategol, a sicrwydd ansawdd mwy cadarn.
- Parhad o ran Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) Llywodraeth Cymru a'r fframwaith/fframweithiau sgiliau ehangach a llythrennedd digidol sy'n datblygu.
- Asesiad clir, pwrpasol o'r sgiliau. Ni fydd angen cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach mwyach.
- O ran llythrennedd a rhifedd, cynhelir yr asesiadau drwy'r arholiadau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4. Caiff llythrennedd a rhifedd ôl-16 eu hasesu drwy'r arholiadau TGAU hyn a'r datblygiad a ddangosir drwy'r Heriau a'r Prosiect Unigol.
- Caiff sgiliau hanfodol heblaw am lythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy'r Prosiect Unigol a'r Heriau.
- Bydd y Prosiect Unigol yn fwy na'r Ymchwiliad Unigol presennol, a bellach ni fydd angen cymharu Cymru â gwlad arall.
- Nid yw'n ofynnol astudio iaith, ond gall yr Heriau fod yn seiliedig ar iaith. Ar ôl 16 oed, gall y rhain fod yn seiliedig ar Gymraeg ail iaith, ond nid yng Nghyfnod Allweddol 4 gan fod hwnnw'n rhan orfodol o'r cwricwlwm beth bynnag.
- Bydd hyblygrwydd i ymestyn a herio'n ddigonol ar bob lefel er mwyn cynnal brwdfrydedd y dysgwyr mwyaf abl ac, yn benodol, yn unol â chasgliadau'r Adolygiad o Gymwysterau, mewn perthynas â'r lefel Uwch.

Strwythur cyffredinol

Bydd gan Fagloriaeth newydd Cymru gymwysterau ar dair lefel:

- Bagloriaeth Sylfaen Cymru
- Bagloriaeth Genedlaethol Cymru
- Bagloriaeth Uwch Cymru.

Bydd y Fagloriaeth Sylfaen yn cyfateb i Lefel 1, bydd y Fagloriaeth Genedlaethol yn cyfateb i Lefel 2 a bydd y Fagloriaeth Uwch yn cyfateb i Lefel 3. Mae'r lefelau hyn yn seiliedig ar y safonau gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer pob cymhwyster fel y nodir yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Bydd yna ddatblygiad clir a chynnydd yn lefel yr hyn sy'n ofynnol drwy'r lefelau, a bydd y cymwysterau ar bob lefel yn darparu llwybr i ddysgwyr gael datblygu a chryfhau eu sgiliau.

Bydd y dysgwyr hynny sy'n cyflawni gofynion yr Heriau a'r Prosiect Unigol ar Lefel 1, 2 neu 3, ond nad ydynt yn ennill y cymwysterau ategol sy'n ofynnol yn cael Tystysgrif Her Sgiliau ar y lefel briodol.

Er mwyn ennill Bagloriaeth Genedlaethol Cymru neu Fagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r canlynol.

Cymwysterau ategol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith
- TGAU Mathemateg – Rhifedd
- O leiaf tri chymhwyster TGAU arall. Yng Nghyfnod Allweddol 4, gall hyd at ddau o'r rhain fod yn gymwysterau cyfatebol[1]; ar ôl 16 oed, gall pob un fod yn gyfatebol.

Craidd Bagloriaeth Cymru:

- Y Prosiect Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned.

Ar gyfer Bagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid i'r cymwysterau TGAU sy'n cyfrannu at y cymhwyster fod yn raddau A* i G. Ar gyfer Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, rhaid iddynt fod yn raddau A* i C. Trafodir graddau'r Prosiect Unigol a'r Heriau, a graddau cyffredinol y cymhwyster, yn adran 'Graddau' ar dudalen 14.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ymgymryd â'r un ystod o Heriau, a phenderfynir ar eu cyrhaeddiad, ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol, drwy asesiad. Mae'r rhain yn gymwysterau di-haen.

[1] Mae cymwysterau cyfatebol ar y lefel briodol ac o faint priodol. Rhaid i'r cymwysterau ategol fod o faint sy'n cyfateb i hanner, un neu ddau TGAU, a chânt eu talgrynnu i lawr i'r hyn sy'n briodol os ydynt yn syrthio rhwng y meintiau hyn.

Ar ôl 16 oed, caiff yr Heriau eu nodi'n rhai Sylfaen neu'n rhai Cenedlaethol.

Yn achos y dysgwyr hynny nad ydynt yn cyflawni'r holl ofynion ar gyfer Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, ond sy'n cyflawni gofynion y Fagloriaeth Sylfaen, dyfernir Bagloriaeth Sylfaen Cymru iddynt.

Maint craidd Bagloriaeth Cymru yw 120 o Oriau Dysgu dan Arweiniad ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol.

Er mwyn ennill Bagloriaeth Uwch Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r canlynol.

Cymwysterau ategol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith gan ennill graddau A*–C
- TGAU Mathemateg – Rhifedd gan ennill graddau A*–C
- Dau gymhwyster Safon Uwch, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny. Rhaid cyflawni hyn drwy ddim mwy na thri chymhwyster gwahanol.

Craidd Bagloriaeth Cymru:

- Y Prosiect Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned.

Nid oes unrhyw bynciau penodol gofynnol ar unrhyw lefel (ac eithrio llythrennedd a rhifedd).

Maint craidd Bagloriaeth Uwch Cymru yw 360 o Oriau Dysgu dan Arweiniad.

Amcanion, deilliannau dysgu a chynnwys

Nod Bagloriaeth Cymru yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd, a medrusrwydd yn y sgiliau hynny. Sgiliau yw'r rhain y mae cyflogwyr ac addysgwyr cam nesaf yn rhoi gwerth arnynt ac y mae eu hangen ar ddysgwyr er mwyn datblygu a pherfformio'n effeithiol wrth ddysgu, byw a gweithio.

Dyma'r sgiliau hanfodol a'r sgiliau cyflogadwyedd:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

Caiff yr holl feysydd sgiliau hyn eu datblygu mewn pob math o ffyrdd ar draws y cwricwlwm a thrwy gydol cyfnod dysgu a bywyd dysgwr. Bydd Bagloriaeth Cymru yn:

- galluogi dysgwyr i gryfhau eu sgiliau a ffurfioli'r broses o'u dysgu
- darparu sylfaen ddamcaniaethol a gwybodaeth neu dechnegau yn ymwneud â sgiliau
- annog dysgwyr i ystyried, dadansoddi a mynegi pa mor fedrus y maent yn y sgiliau
- ennyn brwdfrydedd dysgwyr i ymchwilio i'r sgiliau, eu datblygu, eu hymarfer a'u cymhwyso
- meithrin hyder dysgwyr a chynyddu eu heffeithiolrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso'r sgiliau mewn pob math o gyd-destunau ystyrlon, bywyd go iawn.

Rhaid i'r fanyleb/manylebau ar gyfer Bagloriaeth Cymru nodi cynnwys y meysydd sgiliau uchod mewn ffordd sy'n gyson â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol, y fframweithiau cwricwlwm statudol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) a, pan fydd(ant) ar gael, y fframwaith/fframweithiau sgiliau ehangach a llythrennedd digidol. Dylent hefyd gyfateb i'r sgiliau a achredir drwy gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a'r TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd.

Rhaid i'r manylebau alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fewn y meysydd sgiliau fel y disgrifir isod. Bydd pob manyleb yn amlinellu manylion penodol.

Llythrennedd
Yng Nghyfnod Allweddol 4, y sgiliau yw'r rheini a nodir ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a/neu Saesneg Iaith ac a asesir drwyddynt.

Ar ôl 16 oed, y sgiliau yw'r rheini a amlinellir ym meini prawf Sgiliau Hanfodol Cymru ac a fydd, maes o law, yn gydnaws â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd estynedig.

Rhifedd
Yng Nghyfnod Allweddol 4, y sgiliau yw'r rheini a nodir ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd ac a asesir drwyddo.

Ar ôl 16 oed, y sgiliau yw'r rheini a amlinellir ym meini prawf Sgiliau Hanfodol Cymru ac a fydd, maes o law, yn gydnaws â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd estynedig.

Llythrennedd Digidol
- Deall ac ymateb yn briodol i risgiau a phroblemau er mwyn cyfathrebu'n ddiogel mewn byd digidol.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Deall a rheoli eu hôl-troed digidol eu hunain.
- Defnyddio, trin a thrafod neu greu data a gwybodaeth a'u cyflwyno'n ddigidol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

- Gallu dod o hyd i wybodaeth ddigidol, ei threfnu, ei storio, ei rheoli, ei rhannu a'i diogelu.
- Gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth.
- Defnyddio technegau a dulliau digidol ar gyfer pob math o weithgareddau, gan gynnwys: cydweithio, gwaith tîm, creadigrwydd, datrys problemau a dysgu.

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

- Deall a chymhwyso dulliau a thechnegau o wneud penderfyniadau a datrys problemau.
- Nodi a dadansoddi problemau neu faterion sy'n codi.
- Nodi atebion neu ymatebion posibl a rhesymau dros wahanol safbwyntiau.
- Gallu cyfiawnhau penderfyniadau.
- Nodi a datblygu dadleuon.
- Asesu'n feirniadol gryfder opsiynau a dadleuon, gan ystyried gwrth-safbwyntiau neu syniadau eraill, deall syniadau yn ymwneud â dilysrwydd neu ddibynadwyedd.
- Dangos cryfder a dyfalbarhad.
- Ystyried dulliau a thechnegau meddwl yn feirniadol, gwneud penderfyniadau a datrys problemau a'u medrusrwydd eu hunain yn y sgiliau hynny.

Cynllunio a Threfnu

- Deall pwysigrwydd amcanion clir.
- Gallu datblygu a chytuno ar amcanion a phennu targedau neu gerrig milltir.
- Dangos cyfrifoldeb a dibynadwyedd.
- Gallu llunio cynllun; nodi a rheoli adnoddau, amserlenni, gweithgareddau; a dyrannu cyfrifoldebau.
- Dewis, trefnu a gwerthuso gwybodaeth sy'n berthnasol i'r amcan neu'r cynllun.
- Gweithredu'r cynllun.
- Monitro a gwerthuso'r cynllun, gan ei ddiwygio yn ôl yr angen ac addasu i newid.
- Nodi ac ymateb i risgiau.
- Ystyried a gwerthuso'r broses gynllunio a'i chanlyniadau.

Creadigrwydd ac Arloesi

- Deall sut i ysgogi syniadau a gallu gwneud hynny, nodi cyfleoedd a gwneud y mwyaf ohonynt.
- Dangos y gallu i feddwl drostynt eu hunain ac i nodi a herio rhagdybiaethau.
- Gallu cyfuno neu ddatblygu syniadau.
- Asesu a gwerthuso syniadau, gan ddewis a gweithredu opsiynau.
- Dangos dychymyg a menter.
- Ystyried y broses a nodi sut y gellid ei gwella.

Effeithiolrwydd Personol

- Deall, rheoli a gwella eu hymddygiad a'u perfformiad eu hunain.
- Dangos menter ac annibyniaeth.
- Gwerthuso eu heffeithiolrwydd personol.
- Rheoli amser yn effeithiol.
- Gallu ymateb yn briodol i wrthdaro.
- Deall rolau a thimau.
- Gweithio'n effeithiol o fewn tîm.

- Parchu ac ymateb i werthoedd a barn eraill, gan gyflwyno eu safbwyntiau eu hunain yn effeithiol.

Y Prosiect Unigol

Mae'r Prosiect Unigol yn cyfrannu 50 y cant at graidd Bagloriaeth Cymru.

Gweithgaredd annibynnol yw'r Prosiect Unigol sy'n seiliedig ar ymchwil. Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a sgiliau a gaiff eu hasesu drwy ddarn ysgrifenedig neu arteffact/cynnyrch a ategir gan dystiolaeth ysgrifenedig.

Er mwyn cyflawni'r gofynion ac arddangos y sgiliau sy'n ofynnol yn ôl meini prawf yr asesiad, byddai disgwyl i ddysgwr lunio:

- Uwch – 3,000 i 5,000 o eiriau (1,500 i 3,000 os mai'r arteffact/cynnyrch yw'r prif ffocws)
- Cenedlaethol/Sylfaen – 1,000 i 2,000 o eiriau gyda neu heb arteffact/cynnyrch.

Heriau

Bydd yna dair Her, rhyngddynt yn ffurfio 50 y cant o graidd Bagloriaeth Cymru. Bydd pob dysgwr yn cyflawni Her Menter a Chyflogadwyedd, Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her y Gymuned.

Her Menter a Chyflogadwyedd	Datblygu sgiliau a nodweddion mentro, a datblygu cyflogadwyedd.
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	Deall ac ymateb yn briodol i fater byd-eang.
Her y Gymuned	Nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned leol.

Gellir cyflawni'r heriau yn unigol neu drwy weithio mewn grŵp bach (tri i chwe dysgwr). O fewn y tair Her, dylai pob dysgwr gyflawni un Her yn unigol ac un fel rhan o grŵp.

Darperir Heriau Cyffredinol gan y sefydliad dyfarnu. Ar gyfer pob Her ar bob lefel, bydd sawl opsiwn ar gael i'r ganolfan neu'r dysgwr ddewis ohonynt.

Bydd y canolfannau yn gallu addasu'r Heriau Cyffredinol a'u rhoi mewn cyd-destun o fewn paramedrau penodol fel y gellir cyflawni rhai Heriau ar draws y cwricwlwm, e.e.:

- Ieithoedd Tramor Modern neu ieithoedd eraill (Cyfnod Allweddol 4)
- Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg Ail Iaith neu ieithoedd eraill (ôl-16)
- Lleoliad gwaith (gyda phwrpas penodol) (pob lefel a chyfnod)
- Fframweithiau cwricwlwm statudol fel Addysg Grefyddol (Cyfnod Allweddol 4)
- Yng nghyd-destun cymwysterau galwedigaethol (ôl-16).

Anogir cwmnïau a sefydliadau allanol i:

- ddatblygu'r Heriau a/neu gymryd rhan ynddynt
- darparu adnoddau ar gyfer Her benodol
- cydweithio â Llywodraeth Cymru/Cymwysterau Cymru a'r sefydliad dyfarnu i ddatblygu a helpu canolfannau i gyflawni'r Heriau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Bydd cyfraniad cyflogwyr neu sefydliadau allanol eraill yn ei gwneud yn bosibl darparu pob math o brofiadau dysgu priodol a chyffrous mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Bydd y sefydliad dyfarnu yn gyfrifol am sicrhau ansawdd heriau a ddatblygir yn allanol a'u cysoni.

Dylai'r sefydliad dyfarnu sicrhau bod yr Heriau:

- yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau at ddibenion gwaith a dysgu pellach, gan gynnwys y meysydd sgiliau hynny sydd i'w hasesu o fewn y math penodol o her
- yn cael eu cefnogi gan adnoddau addysgu a dysgu addas, cymorth, canllawiau a datblygiad proffesiynol parhaus
- yn cynnwys ac yn nodi'n benodol fanylion, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r sgiliau (yn ogystal ag unrhyw gyd-destun perthnasol i'r Her benodol)
- yn darparu profiadau dysgu pwrpasol, ystyrlon a chyffrous
- mewn cyd-destunau bywyd go iawn
- yn egnïol, yn greadigol, yn benagored ac yn cael eu harwain gan y dysgwr
- yn annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig, holi cwestiynau a meddwl drostynt eu hunain, cynllunio, gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, datrys problemau, a'u hystyried a'u gwerthuso
- yn ymestynnol ac yn uchelgeisiol ond yn rhoi lle i ddysgwyr ymarfer, gwneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt
- yn hybu menter, annibyniaeth a'r gallu i wrthsefyll problemau/gwrthwynebiad
- yn adeiladu ar y cwricwlwm a'r fframweithiau a amlinellir yn adran 'Amcanion, deilliannau dysgu a chynnwys' ar dudalen 6 ac yn gydnaws â nhw
- yn gyson o ran galw ac ansawdd
- yn ehangu profiad dysgwyr drwy ymgysylltu â sefydliadau allanol neu drwy fathau newydd o weithgareddau a lleoliadau.

Asesu a'r cynllun asesu

Bydd pwysoliad cymharol y Prosiect Unigol a'r Heriau o fewn craidd Bagloriaeth Cymru fel a ganlyn ar bob lefel:

Y Prosiect Unigol	50%
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%
Her y Gymuned	15%

Ar lefel **Genedlaethol a Sylfaen** yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16 oed, caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd a'r graddau a nodir yn adran 'Strwythur cyffredinol' ar dudalen 5.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf Bagloriaeth newydd Cymru, bydd trefniadau dros dro a fydd yn golygu y derbynnir cymhwyster Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru yn y sector ôl-16 yn lle TGAU, i gydnabod y ffaith mai manyleb yr hen TGAU y bydd y dysgwyr wedi'i hastudio tan eu bod yn 16 oed.

Ar ôl 16 oed, caiff dysgwyr eu hasesu hefyd ar eu gallu i gymhwyso llythrennedd a rhifedd o fewn yr Heriau a'r Prosiect Unigol. Caiff elfennau ariannol eu cynnwys yn yr Her Menter a Chyflogadwyedd.

Bydd hefyd yn ofynnol i ddysgwyr ennill y cymwysterau ategol eraill a bennir a'r graddau a nodir yn adran 'Strwythur cyffredinol' ar dudalen 5.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrusrwydd o ran sgiliau yn yr asesiadau fel a ganlyn:

Y Prosiect Unigol

- Cynllunio a Threfnu.
- Llythrennedd Digidol.
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau.
- Ymchwil, Gwybodaeth a Dadansoddiad yn ymwneud â'r pwnc a ddewisir.
- Ar ôl 16 oed: Llythrennedd.
- Ar ôl 16 oed: Rhifedd.

Her Menter a Chyflogadwyedd

- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol
- Llythrennedd Digidol
- Ar ôl 16 oed: Rhifedd

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau.
- Creadigrwydd ac Arloesi.
- Ar ôl 16 oed: Llythrennedd.

Her y Gymuned

- Cynllunio a Threfnu.
- Effeithiolrwydd Personol.

Ar lefel **Uwch**, caiff llythrennedd a rhifedd eu hasesu drwy ennill cymwysterau TGAU mewn Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith a Mathemateg – Rhifedd, graddau A* i C a thrwy ddangos datblygiad mewn llythrennedd a rhifedd drwy'r Prosiect Unigiol a'r Heriau.

Bydd hefyd yn ofynnol i ddysgwyr ennill y cymwysterau ategol eraill a bennir a'r graddau a nodir yn adran 'Strwythur cyffredinol' ar dudalen 5.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrusrwydd o ran sgiliau yn yr asesiadau a ganlyn:

Y Prosiect Unigol

- Cynllunio a Threfnu.
- Llythrennedd Digidol.
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau.
- Ymchwil, Gwybodaeth a Dadansoddiad yn ymwneud â'r pwnc a ddewisir.
- Llythrennedd.
- Rhifedd.

Her Menter a Chyflogadwyedd

- Creadigrwydd ac Arloesi.
- Effeithiolrwydd Personol.
- Llythrennedd Digidol.
- Rhifedd.

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau.
- Creadigrwydd ac Arloesi.
- Llythrennedd.

Her y Gymuned

- Cynllunio a Threfnu.
- Effeithiolrwydd Personol.

Caiff cyfarwyddyd asesu ei ddatblygu ar gyfer y Prosiect Unigol a phob Her ar bob lefel, yn amlinellu'r sgiliau gofynnol.

Bydd manyleb pob Her yn nodi'r dystiolaeth sy'n dderbyniol ar gyfer yr asesiad. Bydd gwaith dysgwyr yn cael ei gyfarwyddo'n fanwl gan ganolfannau, yn cael ei asesu'n fewnol a'i gymedroli'n allanol fel y nodir yn adran 'Cymedroli' ar dudalen 13. Bydd y sefydliad dyfarnu yn amlinellu'r rheolaethau sy'n ofynnol ar gyfer pob Her.

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru ar unrhyw lefel, rhaid i ddysgwyr gyflawni pedair elfen y Craidd – y Prosiect Unigol a'r tair Her.

Bydd i Fagloriaeth Cymru fanyleb fodwlar, gyda chyfleoedd blynyddol i gofrestru at ddibenion cymedroli a dyfarnu. Ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn y bydd y rhain ar gyfer Sylfaen/Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Uwch, ac ym Mehefin ar gyfer Sylfaen a Chenedlaethol ôl-16. Bydd modd ailsefyll pob Her/Prosiect unwaith. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll, ni fydd modd iddynt ennill gradd uwch na 'Pasio' ar gyfer yr Her neu'r prosiect hwnnw.

Wrth lunio'r cymwysterau, dylid sicrhau eu bod yn addas i unrhyw ddysgwr, beth bynnag ei ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Dylid osgoi, lle bo modd, unrhyw beth a allai, yn ddiangen, ei gwneud yn anoddach i ddysgwr eu cyflawni, am fod nodwedd warchodedig yn wir amdano. Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, rhywedd a ailbennwyd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer rhai dysgwyr er mwyn iddynt allu cael eu hasesu (e.e. caiff ymgeiswyr ddefnyddio dehonglydd iaith arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn nogfen *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration: General and Vocational Qualifications* (y Cyd-Gyngor Cymwysterau, 2013).

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-Gyngor yn www.jcq.org.uk

Cymedroli

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r trefniadau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod gwaith dysgwyr a asesir yn fewnol yn cael ei farcio'n gyson ac yn gywir, yn ôl safon y cytunir arni. Caiff yr Heriau a'r Prosiect Unigol eu marcio'n fewnol a'u cymedroli'n allanol.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu benodi cymedrolwyr, prif gymedrolwyr, arweinwyr timau, prif gymedrolwyr cynorthwyol (lle bo angen) sydd â phrofiad perthnasol o addysgu ac asesu.

Rhaid cael digon o gymedrolwyr i sicrhau y gellir alinio'r safonau'n effeithiol o fewn canolfannau a rhyngddynt yn unol ag amserlen benodol.

Rhaid i gymedrolwyr ystyried gwaith o sawl canolfan, ac ni chânt gymedroli gwaith unrhyw ddysgwyr o ganolfan lle mae ganddynt gysylltiad personol.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu roi hyfforddiant a chanllawiau dilynol i gymedrolwyr ym mhob agwedd ar weithdrefnau asesu a chymedroli mewnol, a rhaid i bob cymedrolwr gymryd rhan yn yr hyfforddiant. Lle ystyrir cymedrolwyr yn anfoddhaol, ni ddylid caniatáu iddynt barhau i gymedroli na chymedroli yn y dyfodol heb gwblhau hyfforddiant pellach priodol yn llwyddiannus.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu roi cyfarwyddiadau gweinyddol clir i ganolfannau, gan gynnwys manylion cofnodi, gwirio a chopïo marciau, a chanllawiau ar sut i wneud penderfyniadau a chofnodi'r wybodaeth.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu roi cyfarwyddiadau a chanllawiau clir i aseswyr mewnol. Bydd yr wybodaeth yn rhoi manylion trefniadau samplu, gan gwmpasu pob her a'r ystod lawn o ran cyrhaeddiad yn y ganolfan. Bydd y cyfarwyddiadau hefyd yn nodi sut caiff asesiadau pob aseswr mewnol ei samplu. Caiff manylion eu cynnwys hefyd ynghylch gofyn am samplau ychwanegol pan fydd hynny'n berthnasol.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu roi hyfforddiant i aseswyr mewnol o ran marcio a chymedroli mewnol.

Lle gwelir bod angen addasu marciau canolfan, bydd yn rhaid i'r sefydliad dyfarnu addasu'r marciau.

Bydd y sefydliad dyfarnu yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y cyfarwyddiadau, yr hyfforddiant a'r canllawiau a ddarperir ar gyfer aseswyr mewnol i sicrhau gwelliant parhaus.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu ei gwneud yn ofynnol i aseswyr mewnol lunio datganiad ysgrifenedig ar gyfer pob dysgwr i gadarnhau mai nhw sydd wedi gwneud y gwaith. Rhaid i ganolfannau safoni asesiadau gwahanol aseswyr a grwpiau addysgu. Mae hyn yn sicrhau bod pob dysgwr mewn canolfan wedi'u hasesu yn erbyn yr un safonau.

Yn achos canolfannau sy'n methu â chyflawni'r gofynion o ran asesu mewnol, rhaid i'r sefydliad dyfarnu roi canllawiau pellach iddynt.

Graddau

Dyfernir y graddau canlynol ar gyfer Bagloriaeth Cymru:

- Sylfaen: Pasio* a Pasio
- Cenedlaethol: A*, A, B ac C
- Uwch: A*, A, B, C, D ac E

Yn achos ymgeiswyr sy'n methu â chyrraedd y safon ofynnol ar gyfer gradd, cofnodir 'heb gyflawni' ar eu cyfer. Ar gyfer pob lefel o Fagloriaeth Cymru, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r gofynion craidd ac ennill y cymwysterau ategol angenrheidiol. Yn achos dysgwyr sy'n cyflawni gofynion yr Heriau a'r Prosiect Unigol, ond nad ydynt yn ennill y cymwysterau ategol gofynnol, dyfernir Tystysgrif Her Sgiliau iddynt ar y lefel briodol.

Caiff yr Heriau a'r Prosiect Unigol hefyd eu graddio. Ar lefelau Cenedlaethol a Sylfaen, graddau'r heriau fydd:

- Pasio lefel Sylfaen, Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth.

Ar lefel Uwch, graddau'r heriau fydd:

- Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth.

Cyfrifir marc cyfanswm ar gyfer craidd Bagloriaeth Cymru pob dysgwr ar sail canlyniadau'r Prosiect Unigol a phob Her. Bydd gradd gyffredinol y Fagloriaeth yn dibynnu ar y marc cyfanswm hwn ac ar gyflawni'r gofynion canlynol (a'r cymwysterau ategol gofynnol).

- I gael dyfarniad Sylfaen, rhaid i'r dysgwr gyflawni'r holl ofynion Craidd, y Prosiect Unigol a'r tair Her, ar Lefel 1.
- I gael dyfarniad Cenedlaethol, rhaid i'r dysgwr gyflawni'r holl ofynion Craidd, y Prosiect Unigol a'r tair Her, gydag o leiaf 80 y cant ar Lefel 2 a'r 20 y cant arall ar Lefel 1.

- I gael dyfarniad Uwch, rhaid i'r dysgwr gyflawni'r holl ofynion Craidd, y Prosiect Unigol a'r tair Her, ar Lefel 3.

Ni fydd graddau'r cymwysterau ategol yn effeithio ar radd gyffredinol y Fagloriaeth.

Penderfynir ar raddau sy'n uwch na'r lefel isaf gan ddefnyddio proses ddyfarnu ffurfiol sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir i ddyfarnu cymwysterau cyffredinol. Bydd grŵp bach o uwch-gymedrolwyr yn penderfynu ar y sgôr ofynnol y bydd ei hangen ar gyfer graddau allweddol (Pasio* ar gyfer Sylfaen, Gradd A ar gyfer Cenedlaethol a Graddau A ac E ar gyfer Uwch). Mae'r penderfyniadau hyn yn seiliedig ar waith ymgeiswyr ynghyd â thystiolaeth ystadegol amrywiol am eu perfformiad yn yr asesiadau, a natur y cohort o ymgeiswyr. Unwaith y pennir y terfynau allweddol hyn ar gyfer graddau, cyfrifir y lleill ar sail rhifyddeg.

Rhaid i'r sefydliad dyfarnu sefydlu, cynnal, cyhoeddi a chydymffurfio bob amser â gweithdrefnau cwyno ac apelio ysgrifenedig. Yn unol â'r gyfraith gydraddoldeb, rhaid bod ganddo drefniadau clir ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'i gymwysterau. Rhaid bod ganddo drefniadau clir ar gyfer rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr mewn perthynas â'i gymwysterau, a'i gwneud yn ofynnol bod gan ei ganolfannau weithdrefn gwyno neu broses apelio er budd dysgwyr.

Ardystio a chofnodi

Bydd y sefydliad dyfarnu yn cadw cofnodion o gyrhaeddiad pob ymgeisydd ym mhob elfen o Fagloriaeth Cymru, gan ddefnyddio Rhif Unigryw'r Dysgwr lle bo modd, er mwyn i ddysgwr allu cronni'r 'blociau adeiladu' hyn drwy gydol ei addysg, a sicrhau nad oes angen ailasesu dysgwr sy'n symud o un ganolfan i un arall.

Bydd y tystysgrifau yn nodi un o'r canlynol:

- Bagloriaeth Sylfaen Cymru (Lefel 1)
- Bagloriaeth Genedlaethol Cymru (Lefel 2)
- Bagloriaeth Sylfaen Ôl-16 Cymru (Lefel 1)
- Bagloriaeth Genedlaethol Ôl-16 Cymru (Lefel 2)
- Bagloriaeth Uwch Cymru (Lefel 3).

Caiff graddau cyrhaeddiad y dysgwr ym mhob Her ac yn y Prosiect Unigol hefyd eu cofnodi ar y tystysgrifau.